

Data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Cyfnod Preswyllo yn y Deyrnas Unedig

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi defnyddio methodoleg rheoli datgelu ystadegol newydd ar gyfer Cyfrifiad 2021. O ganlyniad, ni fydd ffigurau a grëir drwy grynhoi daearyddiaethau lefel is yn cyfateb i ffigurau a ryddhawyd ar gyfer daearyddiaethau uwch. Nid yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn argymhell cydgrynhoi daearyddiaethau lefel is i greu daearyddiaethau uwch.

Cyfnod Preswyllo yn y Deyrnas Unedig	Sir Gaerfyrddin				Cymru				Cymru a Lloegr			
	2011		2021		2011		2021		2011		2021	
Pob person	183,777		187,897		3,063,456		3,107,494		56,075,912		59,597,542	
Ganwyd yn y Deyrnas Unedig	176,192	95.9%	178,385	94.9%	2,895,585	94.5%	2,892,064	93.1%	48,570,902	86.6%	49,579,570	83.2%
Preswyllo yn y Deyrnas Unedig												
Llai na 2 flynedd	1,180	0.6%	791	0.4%	27,456	0.9%	27,155	0.9%	955,481	1.7%	1,125,609	1.9%
2 flynedd neu fwy ond llai na 5 mlynedd	1,404	0.8%	944	0.5%	29,403	1.0%	26,770	0.9%	1,199,710	2.1%	1,322,160	2.2%
5 mlynedd neu fwy ond llai na 10 mlynedd	1,606	0.9%	1,657	0.9%	35,486	1.2%	35,376	1.1%	1,557,353	2.8%	1,735,314	2.9%
10 mlynedd neu fwy	3,395	1.8%	6,120	3.3%	75,526	2.5%	126,129	4.1%	3,792,466	6.8%	5,834,889	9.8%

Dadansoddiad:

- Mae cyfran y bobl sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin a gafodd eu geni y tu allan i'r DU wedi gostwng 1% ers y Cyfrifiad diwethaf. Mae gostyngiadau cyfrannol i'w gweld yn genedlaethol hefyd.
- Mae'r mwyafrif (64%) o bobl (a anwyd y tu allan i'r DU) wedi bod yn byw yn y sir ers dros ddeng mlynedd.

Diffiniad:

Mae'r set ddata hon yn darparu amcangyfrifon Cyfrifiad 2021 sy'n dosbarthu preswylwyr arferol yng Nghymru a Lloegr yn ôl y flwyddyn y cyraeddasant y DU. Mae'r amcangyfrifon fel ag yr oeddent ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, 21 Mawrth 2021.

Mae'r cyfnod preswyllo yn y DU yn deillio o'r dyddiad y cyrhaeddodd person ddiwethaf i fyw yn y DU. Nid yw ymweliadau byr i ffwrdd o'r DU yn cael eu cyfrif wrth bennu'r dyddiad y cyrhaeddodd person ddiwethaf.

Dim ond i breswylwyr na chawsant eu geni yn y DU y mae cyfnod preswyllo yn berthnasol. Nid yw'n cynnwys preswylwyr arferol a anwyd yn y DU sydd wedi ymfudo ac sydd wedi dychwelyd ers hynny – mae'r rhain wedi'u cofnodi yn y categori 'Ganed yn y DU'.